Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 27 Mawrth 2017 at 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Geraint Woolford (Maer), James Bryan (Dirprwy Faer). Y Cynghorwyr Stephen Beach, June Derry, Ken Hawkins, Rosie Hughes, Menna Jones, Simeon Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Heather Williams ac Emrys Wynne.

210. CYFLWYNIAD YNGHYLCH CANOLFAN GREFFT RHUTHUN

Croesawodd y Maer Mr Stephen Hughes, Swyddog Arweiniol Hamdden Masnachol Cyngor Sir Ddinbych, a Mr Philip Hughes, Rheolwr y Ganolfan Grefft, a roddodd gyflwyniad ar gefndir cyllido'r Ganolfan Grefft. Esboniodd Mr Stephen Hughes fod y prif gyllid yn dod gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ac y byddai'r £30,000 gan Gyngor Tref Rhuthun yn cael ei ddefnyddio i gynnal y ganolfan, a chynnwys pobl ym maes celf a chrefft mewn gwahanol ffyrdd a pharhau'r gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Darparodd Mr Philip Hughes ystadegau am y cyfnod Ebrill 2016 – Medi 2016, yn nodi bod 26 o brosiectau mynediad agored wedi'u cynnal trwy 297 o sesiynau, gyda 12,775 wedi cymryd rhan. Roeddynt wedi gweithio gyda 12 o ysgolion a 3 choleg ar 6 phrosiect yn cynnwys 50 sesiwn, gyda 587 o gyfranogwyr wedi gweithio gydag artistiaid. Gweithiwyd gyda phobl ifanc y tu allan i'r ysgol hefyd trwy'r gwasanaeth Gofalwyr Ifanc a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, gyda 338 o gyfranogwyd wedi Cymru rhan mewn 6 prosiect yn ystod 30 sesiwn. Cynhaliwyd Ymgolli mewn Celf ar gyfer pobl â demensia yn y Ganolfan Grefft hefyd. Cynigiwyd darparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor Tref, a chynnal cyfarfod Cyngor Tref yn y Ganolfan Grefft petai'r aelodau'n dymuno hynny. Gofynnodd y Maer a oedd unrhyw gwestiynau a holodd yr aelodau sut roedd digwyddiadau'n cael eu marchnata, i drigolion lleol ac i ymwelwyr sy'n dod i gyrchfannau cyfagos fel Loggerheads a Llangollen, a faint o gyllid a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych. Hysbyswyd yr aelodau fod y cyngor sir wedi buddsoddi yn y gegin yn y caffi yn y Ganolfan, ac yn marchnata'r cyfleuster a'i ddigwyddiadau a'i arddangosfeydd trwy ei restr bostio a chyhoeddusrwydd mewn gwahanol gyhoeddiadau. Digwyddiad newydd eleni, yn gysylltiedig â Drysau Agored Rhuthun, fydd diwrnod prisio creiriau.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r cyflwyniad a throsglwyddo'r £30,000 i'r Ganolfan Grefft.*

211. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bob Costain ac Elisabeth Culshaw a Mr Jamie Groves ar gyfer eitem 1 ar yr agenda.

212. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau budd.

213. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer am y digwyddiadau isod o'r hyn roedd yn ei gofio, ac addawodd ddod â'r rhestr gyflawn i'r cyfarfod nesaf.

28.02 Rasys crempog ar Sgwâr Sant Pedr
01.03 Cystadleuaeth addurno ffenestri Menter Iaith Sir Ddinbych – cyflwyno gwobrau
13.03 Taith o amgylch waliau Castell Rhuthun gyda Will Davies, CADW
18.03 Cinio Elusennol y Maer
20.03 Cyfarfod gyda Heddlu Rhuthun
24.03 Cinio Siarter Clwb Rotari Rhuthun

214. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. James Bryan — Cinio Gŵyl Dewi'r Lleng Brydeinig, cyfarfod Pwyllgor Rheoli Awelon, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, taith o amgylch waliau Castell Rhuthun, Cinio Elusennol y Maer, cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun, cyfarfod gyda Heddlu Rhuthun a chyfarfod gyda Gareth Watson,

	Swyddog Cyfathrebu Cyngor Sir Ddinbych.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, cyfarfod cynrychiolwyr Gŵyl Rhuthun gyda Gareth Watson a Chinio Elusennol y Maer.
Cyng. June Derry	Cinio Elusennol y Maer.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Banc bwyd x 4, Rasys crempog, cyfarfodydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras, lansio llyfr hanes Rhuthun, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, taith o amgylch waliau Castell Rhuthun, cyfarfod Anghenion Dysgu Ychwanegol Ysgol Pen Barras a chyfweld disgyblion yn Ysgol Brynhyfryd.
Cyng. Ken Hawkins	Cinio Elusennol y Maer ac addasu amser cloc Eglwys Sant Pedr gyda'r Cyng. Simeon Jones.
Cyng. Rosie Hughes	Cinio Elusennol y Maer.
Cyng. Menna Jones	Cinio Elusennol y Maer, cyfarfod Pwyllgor Cynghori Llys Marchan ac Eisteddfod yr Urdd Cylch Rhuthun.
Cyng. Simeon Jones	Addasu amser cloc Eglwys Sant Pedr gyda'r Cyng. Ken Hawkins.
Cyng. Ian Lewney	Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun a Chinio Elusennol y Maer.
Cyng. Anne Roberts	Taith ymgyfarwyddo â chyrchfan sy'n croesawu bysiau moethus i Fetws y Coed, cyfarfod y Gymdeithas Ddinesig ynghylch Drysau Agored Rhuthun, y Gymdeithas Ddinesig yng Nghastell Rhuthun a chyfarfod gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.
Cyng. Heather Williams	Taith ymgyfarwyddo â chyrchfan sy'n croesawu bysiau moethus i Fetws y Coed, taith o amgylch waliau Castell Rhuthun a Chinio Elusennol y Maer.
Cyng. Emrys Wynne	Rasys crempog a thaith o amgylch waliau Castell Rhuthun.

215. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2017 yn gywir.*

216. MATERION YN CODI

Cadarnhaodd y Cynghorydd Emrys Wynne fod yr holl arian wedi'i gasglu ar gyfer prynu'r diffibriliwr a dwy sesiwn hyfforddiant gyda'r nos.

217. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2017 gan Gadeirydd y Pwyllgor.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

218. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2017 gan Gadeirydd y Pwyllgor.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

219. ENWEBIADAU AR GYFER MAER A DIRPRWY FAER

Enwebwyd y Cynghorydd James Bryan fel Maer, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Stephen Beach a'i eilio gan y Cynghorydd Robert Owen-Ellis. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill a
PHENDERFYNWYD*: yn unfrydol enwebu'r Cynghorydd James Bryan fel Maer Rhuthun am flwyddyn ddinesig 2017-18.*

Cyflwynwyd dau enwebiad ar gyfer Dirprwy Faer ym mlwyddyn ddinesig 2017-18. Cynigiodd y Cynghorydd Emrys Wynne y Cynghorydd Menna Jones, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Heather Williams, a chynigiodd y Cynghorydd Anne Roberts y Cynghorydd Ian Lewney, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Rosie Hughes. Pleidleisiodd yr aelod trwy bleidlais gudd a
PHENDERFYNWYD*: enwebu'r Cynghorydd Ian Lewney fel Dirprwy Faer Rhuthun am flwyddyn ddinesig 2017-18.*

220. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL GAN GYLCH TI A FI RHUTHUN

Ystyriodd yr aelodau wybodaeth ychwanegol yng nghyswllt cais am gymorth ariannol gwerth £500.00 gan Gylch Ti a Fi Rhuthun. Cynigiwyd ac eiliwyd cynnig i roi £200.00 i Gylch Ti a Fi Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: yn unfrydol roi £200.00 o gymorth ariannol i Gylch Ti a Fi Rhuthun.*

221. YMGYRCH TACLUSO RHUTHUN 2017
Ystyriodd yr aelodau argymhelliad y Pwyllgor Amwynderau y dylid cynnal Ymgyrch Tacluso Rhuthun 2017 ddydd Sadwrn, 8 Ebrill 2017, yn cyfarfod ym maes parcio Cae Ddôl am 10 o'r gloch y bore a dychwelyd erbyn hanner dydd.
PENDERFYNWYD*: cynnal yr Ymgyrch Tacluso Rhuthun ar y dyddiad a'r amser uchod.*

222. DIWRNODAU PARCIO AM DDIM 2017
Bu'r aelodau'n ystyried argymhelliad y Pwyllgor Amwynderau y dylid cynnal y pum diwrnod parcio am ddim ym meysydd parcio'r dref ar 1 Gorffennaf, 2 Medi a 2, 9 ac 16 Rhagfyr 2017.
PENDERFYNWYD*: cadarnhau'r dyddiadau hyn a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.*

223. CYFARFOD CHWARTEROL CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU
Ystyriodd yr aelodau wahoddiad i Gyfarfod Chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru i'w gynnal ddydd Gwener, 21 Ebrill 2017 am 10.30am yng Ngwesty'r Royal Oak, Y Trallwng, ynghyd â chinio am £16 yr un.
PENDERFYNWYD*: y byddai'r Cynghorydd Emrys Wynne a'r Cynghorydd Stephen Beach yn cynrychioli Cyngor Tref Rhuthun yn y cyfarfod, a threfnu cinio yr un iddynt.*

224. POLISI CADW DOGFENNAU
Gofynnwyd i'r aelodau fabwysiadu Polisi Cadw Dogfennau.
PENDERFYNWYD*: mabwysiadu'r Polisi a gyflwynwyd.*

225. GOHEBIAETH
Ystyriodd yr aelodau'r eitemau gohebiaeth a ganlyn:
i. Ymgynghoriad: Polisi Cludiant Dysgwyr Sir Ddinbych
ii. Penodi Is-lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru
iii. Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd i Bwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
iv. Penodi Aelodau i Gyngor Partneriaeth y Gymraeg
PENDERFYNWYD*: nodi'r ohebiaeth.*

226. DATGANIAD ARIANNOL
Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 28 Chwefror 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 28 Chwefror 2017.*

227. CYFRIFON I'W TALU
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r cyfrifon a ganlyn.*

5003	Cymdeithas Gymuned Llanfwrog	Cymorth ariannol tuag at osod lifft a grisiau yng Nghanolfan Llanfwrog		£5,000.00
5004	Menter Iaith Sir Ddinbych	Cymorth ariannol at weithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg yn Rhuthun		£500.00
5005	Zoll Medical UK Ltd	Peiriant diffibriliwr AED Plus	*	£983.88
5006	SADS UK	Cwpwrdd diffibriliwr wedi'i wresogi, heb ei gloi		£320.00
5007	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Mawrth 2017		£171.30

5008	The Play Inspection Co.	Adroddiad Arolwg Diogelwch Blynyddol x 2		£156.00
5009	Cyngor Sir Ddinbych	Ad-daliad rhif 6 (o 7) y benthyciad parc sgrialu		£7,880.00
5010	SLCC	Cwrs hyfforddiant 4 diwrnod CiLCA, Yr Wyddgrug	*	£300.00
5011	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£252.83
5012	Aerial Electrics Ltd	Cyflenwi a gosod lampau newydd i lifoleuo Eglwys Sant Pedr	*	£242.40
5013	Aerial Electrics Ltd	Tynnu'r hen oleuadau a chyflenwi a gosod goleuadau LED newydd ar y coed yn Sgwâr Sant Pedr	*	£2,743.20
5014	Aerial Electrics Ltd	Goleuadau Nadolig ar y coed Nadolig mewn pum lleoliad	*	£4,003.20
5015	Capel Pendref	Costau trydan ar gyfer y llifoleuadau		£72.74
5016	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
D.U.	BT Business	Gwasanaethau ffôn	*	£99.67

228. RHAN DAU

Cynigiodd y Cynghorydd Robert Owen-Ellis ac eiliodd y Cynghorydd Stephen Beach gynnig i fynd i Ran Dau a ***PHENDERFYNWYD*** yn unfrydol. Gadawodd y cyhoedd a'r Clerc y cyfarfod ar y pwynt yma.

229. GRŴP PENODI CLERC Y DREF

Derbyniodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr. Ychwanegwyd bod y Clerc hefyd wedi cytuno i baratoi ffeil yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i'w gadw gan y Maer a'i ddefnyddio pe na bai'r Clerc ar gael.

PENDERFYNWYD*: cynyddu cyflog y Clerc i'r gynnyddran nesaf o 1 Ebrill 2017 ac y dylai'r Cyngor sefydlu Pwyllgor Staffio a Phwyllgor Apêl, ac y dylid paratoi'r wybodaeth parhad busnes.*

230. CYFLOG CLERC Y DREF

Dosbarthwyd manylion cyflog Clerc y Dref am y cyfnod Tachwedd 2016 – Mawrth 2017 ynghyd â ffurflen hawlio treuliau'r Clerc am yr un cyfnod.

PENDERFYNWYD*: derbyn y manylion a thalu'r cyflog dyledus a'r treuliau a hawliwyd.*

231. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 24 Ebrill 2017 am 7:00pm.*